Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# The Haven

# Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2015

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/02/2016**

## Cyd-destun

Ysgol annibynnol sy’n darparu addysg i hyd at wyth o ddisgyblion 11 i 19 oed â diagnosis o anhwylder yn y sbectrwm awtistig (ASD) yw The Haven. Yr elusen Autism Initiatives sy’n berchen ar yr ysgol ac yn ei rheoli.

Agorodd yr ysgol yn Nhachwedd 2013 ac mae wedi’i lleoli ar gyrion yr Wyddgrug yng ngogledd Cymru.

Mae’r adeilad yn cynnwys tair ardal ddysgu sy’n gyfforddus ac yn cynnwys adnoddau da i fodloni anghenion dysgu ac anghenion cymdeithasol y disgyblion. Mae yno safle helaeth sy’n cael ei ddefnyddio’n effeithiol gan staff a disgyblion i gefnogi’r cwricwlwm.

Mae wyth o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae pob un o’r disgyblion wedi’u lleoli gan awdurdod lleol Sir y Fflint ac mae gan bob un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Yn ystod yr ymweliad, addysgwyd yr holl wersi gan athro cyflenwi. Bydd yr athro hwn yn ymgymryd â swydd barhaol yn yr ysgol yn Ionawr 2016.

Mae’r ysgol yn darparu addysg amser llawn ac yn dilyn amserau tymor yr awdurdod lleol. Mae’r athro arweiniol wedi bod yn ei swydd er Medi 2014.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau’r ysgol:**

- Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu gofalgar a chefnogol lle mae perthnasoedd gweithio da gyda’r staff a disgyblion
- Mae’r ystafelloedd dosbarth a’r mannau awyr agored yn darparu amgylcheddau dysgu priodol gydag adnoddau addas
- Ceir ffocws cadarn ar ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion
- Mae’r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu’u medrau byw’n annibynnol a’u medrau cymdeithasol
- Gwneir defnydd da o gyfleusterau yn y gymuned leol gan yr ysgol i wella’r cwricwlwm ac i ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion, gan gynnwys ymweliadau â chaffis lleol, pwll nofio a chanolfan hamdden

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- Mae presenoldeb disgyblion yn rhy isel
- Nid yw cynllunio'r athrawon yn nodi cyfleoedd addas yn ddigon manwl i ddisgyblion ddatblygu'u medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd
- Mae targedau mewn cynlluniau addysg unigol (CAUau) yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar anghenion dysgu unigol a datblygu medrau disgyblion
- Nid yw'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn ddigon da
- Nid yw athrawon yn cynllunio gwersi yn ddigon gofalus i ddarparu gweithgareddau ysgogol a heriol i ddisgyblion sy'n briodol i'w hoedran
- Ar adeg yr ymweliad, roedd y polisi diogelu wedi dyddio ac nid oedd yn adlewyrchu newidiadau staff diweddar; mae'r polisi wedi'i ddiweddaru erbyn hyn
- Nid yw pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu; trefnwyd i'r rhai sydd wedi'u penodi'n ddiweddar i gael hyfforddiant yn Ionawr
- Er bod gan yr ysgol bolisi ar gyfer iechyd a diogelwch disgyblion ar ymweliadau oddi ar y safle, nid yw staff bob amser yn dilyn y gweithdrefnau a amlinellwyd ynddo, er enghraifft nid ydynt yn asesu risg gweithgareddau oddi ar y safle

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Gwella datblygu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm a gwneud yn siŵr bod y cynllunio'n cynnwys cyfleoedd i gymhwyso'r medrau hyn

A3 Gwella presenoldeb disgyblion â'u hymgysylltiad â dysgu

A4 Datblygu proses briodol ar gyfer olrhain ac asesu a sicrhau bod targedau CAU yn cysylltu'n agosach ag anghenion dysgu unigol disgyblion

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- gynhyrchu cynlluniau a chynlluniau gwaith priodol i gefnogi'r polisi cwricwlwm 1(2)
- cynnwys deunydd pwnc sy'n briodol i oedrannau a doniau disgyblion 1(2)(b)
- sicrhau bod yr addysgu yn galluogi disgyblion i gaffael gwybodaeth newydd, a gwneud cynnydd yn unol â'u gallu fel eu bod yn cynyddu'u dealltwriaeth ac yn datblygu'u medrau yn y pynciau a addysgir 1(3)(a)
- sicrhau bod gwersi wedi'u cynllunio'n dda, bod dulliau addysgu yn effeithiol, bod gweithgareddau addas yn cael eu defnyddio, a bod amser dosbarth yn cael ei reoli'n ddoeth 1(3)(c)
- sicrhau bod athrawon yn dangos dealltwriaeth dda o ddoniau, anghenion a chyraeddiadau blaenorol y disgyblion, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi 1(3)(d)
- asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drwyadl a defnyddio gwybodaeth o'r asesu i gynllunio addysgu fel bod disgyblion yn gallu gwneud cynnydd 1(3)(g)

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- ddarparu gwybodaeth gyffredinol, eang i ddisgyblion am sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus 2(d)
- cynorthwyo disgyblion i werthfawrogi eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau pobl eraill, a pharchu hynny, mewn ffordd sy'n hyrwyddo goddefgarwch a chytgord rhwng traddodiadau diwylliannol gwahanol 2(e)

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- baratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hybu lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol yn unol â Chylchlythyrau Llywodraeth Cynulliad Cymru 005/2008 a 158/2015 3(2)(b)

- paratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig yn ymwneud ag iechyd a diogelwch disgyblion ar weithgareddau y tu allan i'r ysgol, sy'n ystyried Arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru: 'Ymweliadau Addysgol – Canllawiau diogelwch ar gyfer dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth**'** 2008. 3(2)(c)

- paratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i hyrwyddo ymddygiad da ymhlith disgyblion, sy'n pennu'r sancsiynau i'w mabwysiadu os bydd disgyblion yn camymddwyn 3(2) (d)

- cadw cofrestr derbyn a phresenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 3(9)

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | The Haven |
| **Rhif yr ysgol** | 6646006 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 07/12/2015 |
| **Perchennog** | Autism Initiatives |
| **Staff** | 1 athro arweiniol<br>3.4 o gynorthwywyr addysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 8 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylder yn y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | N\A |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | N\A |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | N\A |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Tîm |